

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol  
(Lle rhoddwyd rhybudd)  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Abertawe Bro Morgannwg,**

**22 Dental**

11 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

**Ffacs:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .....	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	11
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	13
6.	Y Camau Nesaf.....	15

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau lle rhoddwyd rhybudd ym mhractis 22 Dental yn 22A, Caroline Street, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1DQ yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 11 Mawrth 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*<sup>1</sup>.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisiau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

---

<sup>1</sup> Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar y 1<sup>af</sup> o Ebrill, 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwyllir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. [www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438](http://www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438)

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar y modd y gweithredir safonau yn y practis a ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. **Cyd-destun**

Mae 22 Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd deintyddol, dwy nyrs a rheolwr practis/derbynydd. Darperir amrywiaeth o wasanaethau.

Mae 22 Dental yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae 22 Dental yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Dywedodd cleifion a wnaeth ddarparu sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Dywedodd cleifion wrthym hefyd eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom fod tîm y practis yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel i gleifion.

Roedd y prosesau ar gyfer defnyddio offer pelydr-X ac offer deintyddol a dadheintio yn ddiogel ac yn effeithiol yn cael eu cefnogi gan ddogfennaeth gynhwysfawr. Roedd staff hefyd yn dangos dealltwriaeth fanwl o'r systemau diogelwch a oedd ar waith yn y meysydd a ystyriwyd gennym.

Roedd y sampl o gofnodion y cleifion y gwnaethom eu hystyried yn gynhwysfawr iawn ac roeddent wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd gan y practis reolwr a oedd yn gweithio'n agos gyda'r prif ddeintydd yn ogystal ag aelodau eraill y tîm. Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith a'u nod oedd sicrhau diogelwch cleifion. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda.

Roedd amgylchedd y practis yn ymddangos ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yn darparu ardal gyfforddus i'r cleifion wrth iddynt aros i gael eu gweld gan y deintydd neu'r hylenydd deintyddol. Daeth i'r amlwg bod y prif ddeintydd wedi'i ymrwymo i ddatblygu cyfleusterau'r practis. Cafodd rhai ardaloedd eu hadnewyddu a gwelsom fod y rhain wedi cael eu haddurno a'u dodrefnu i safon uchel.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd cleifion a wnaeth ddarparu sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Dywedodd cleifion wrthym hefyd eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.**

Roedd tîm y practis yn gyfeillgar ac yn groesawgar, a gwelsom eu bod yn garedig ac yn gwrtais i gleifion. Roedd nifer o'r cleifion a oedd yn mynychu yn adnabod y staff yn dda ac roedd hyn yn cyfrannu at awyrgylch gyfeillgar yn y practis.

Gwnaethom wahodd cleifion a oedd yn mynychu'r practis ar ddiwrnod yr arolygiad i gwblhau holiaduron AGIC. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur, yn bennaf drwy sgysiau wyneb yn wyneb â chleifion.

Gwnaeth yr holl gleifion a ddarparodd sylwadau nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn gan y practis, roeddent yn teimlo bod croeso iddynt gan staff y practis a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Ymhlith y sylwadau mae:

*Tîm da. Dim problemau.'*

*'Bodlon iawn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y practis.'*

*'Maen nhw'n wych.'*

Dywedodd cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi arwyddocaol wrth aros i gael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Disgrifiodd y staff fod proses ar waith er mwyn rhoi gwybod i gleifion pe bai eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol ar fyr rybudd. Cafodd y broses hon ei chadarnhau gan un o'r cleifion a oedd wedi darparu sylwadau.

Roedd deunydd hybu iechyd ar gael yn ffeiliau gwybodaeth y cleifion yn y ddwy ystafell aros. Yn ogystal, roedd gan yr ystafell aros ar y llawr cyntaf sgrin fawr a oedd yn dangos deunydd hybu iechyd a throsolwg o'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth berthnasol ar gael i gleifion er mwyn eu helpu i ofalu am hylendid y geg a'u hiechyd eu hunain.

Roedd taflen wybodaeth cleifion ar gael i gleifion ei chadw. Roedd hon yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd hefyd yn cyfeirio at sut y gallai cleifion nodi pryderon (cwynion). Roedd gwybodaeth am y weithdrefn gwyno a sut i wneud awgrymiadau hefyd yn wedi'i nodi'n glir yn yr



ystafelloedd aros. Golygai hyn fod gan gleifion fynediad hawdd at y wybodaeth am sut i nodi pryderon a allai fod ganddynt a sut i ddarparu adborth.

Roedd manylion am fandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth ar gael ynghyd â gwybodaeth am gymhwysedd cleifion ar gyfer triniaeth am ddim. Roedd prisiau hefyd ar gael ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion a oedd yn ymweld â'r practis fynediad at wybodaeth am faint y gallai fod angen iddynt ei dalu am eu triniaeth ddeintyddol.

## ***Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru***

**Gwelsom fod tîm y practis yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel i gleifion.**

**Roedd y prosesau ar gyfer defnyddio offer pelydr-X ac offer deintyddol a dadheintio yn ddiogel ac yn effeithiol yn cael eu cefnogi gan ddogfennaeth gynhwysfawr. Roedd staff hefyd yn dangos dealltwriaeth fanwl o systemau diogelwch ar waith yn y meysydd a ystyriwyd gennym.**

**Roedd y sampl o gofnodion y cleifion a ystyriwyd gennym yn gynhwysfawr ac wedi cael eu cynnal a'u cadw'n dda.**

### *Cyfarpar Radiograffeg/Dogfennau*

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gynhwysfawr ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol. Roedd tystysgrifau ar gael o ran gwaith cynnal a chadw a gwiriadau pelydr-X ac roedd cofnodion o hyfforddiant staff ar gael. Roedd ansawdd y pelydrau-X hefyd yn destun archwiliadau rheolaidd a thrylwyr ac yn rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Pan ofynnwyd i staff, roeddent yn llwyr ymwybodol o'r rhagofalon i'w dilyn wrth ddefnyddio pelydrau-X.

### *Dadebru a Chymorth Cyntaf / Cyffuriau a Ddefnyddir mewn Achos Brys*

Mae gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag amrywiaeth o argyfyngau cleifion. Roedd gan y staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys ar gyfer argyfwng cleifion (cwympiad) yn y practis. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oedd y ddeintyddfa yn eu defnyddio. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywiad cardio-pwlmonaidd. Dywedwyd fod system ar waith i ddynodi a newid cyffuriau sydd â dyddiadau sydd wedi dod i ben, a hefyd i wirio offer brys yn rheolaidd. Gwnaeth y cofnodion a welsom gadarnhau'r broses hon. Roedd llyfrau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel allan o afael unigolion heb eu hawdurdodi.

### *Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus*

Gwelsom fod dogfennaeth gontract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Roedd gwastraff a oedd yn cael ei gynhyrchu gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel wrth gael ei gasglu a'i waredu gan y contractwr. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer gwaredu ar amalgamau (llenwadau).

## *Dadheintio offer a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05*

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) yr offer deintyddol a ddefnyddir yn y practis, ac ar gyfer cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>2</sup>.

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân yn unol â'r hyn a argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Dylai hyn, ynghyd â gweithdrefnau rheoli priodol, leihau'r perygl o groes-heintio.

Gwelsom fod proses briodol ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer, gan gynnwys cludo offer rhwng deintyddfeydd a'r ystafell ddadheintio. Roedd llyfrau cofnodion yn nodi bod gwiriadau offer dyddiol wedi cael eu cynnal, eu bod ar gael a'u bod yn gyfredol. Gwelsom fod yr offer sy'n cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer mewn cyflwr da. Gwelsom fod yr offer yn cael eu bagio'n briodol, ac yn cael eu stampio â'r dyddiad y cawsant eu prosesu, yn ogystal â'r dyddiad dod i ben, cyn iddynt gael eu storio. Roedd hyn yn unol â WHTM 01-05.

Gwnaeth y prif ddeintydd gadarnhau y cwblhawyd archwiliad rheoli heintiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan ddefnyddio teclyn cydnabyddedig yn unol â pholisi a chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cymryd rhan. Roedd hyn yn caniatáu i'r tîm deintyddol hunanasesu eu practis yn erbyn y polisi a datblygu cynllun gwella fel rhan o'u cynllun gwella parhaus.

Roedd cyfleusterau golchi dwylo ac offer amddiffynnol untro ar gael i leihau'r perygl o groes-heintio a gwelsom y staff yn eu defnyddio.

### *Cyfleusterau Clinigol*

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o ddeintyddfeydd y practis. Gwelsom eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Cafodd un feddygfa ei hadnewyddu i safon uchel iawn. Esboniodd y prif ddeintydd fod y deintyddfeydd eraill ar fin cael eu hadnewyddu fel rhan o'r cynllun i ddatblygu safle'r practis. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth.

### *Cofnodion Deintyddol Cleifion*

---

<sup>2</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn darparu canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd y practis wedi rhoi system cofnodion electronig cleifion ar waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Felly, ar adeg yr arolygiad, defnyddiwyd cofnodion electronig yn ogystal â chofnodion papur. Roedd sampl y cofnodion a ystyriwyd gennym yn gynhwysfawr iawn ac roeddent yn dangos bod gofal wedi'i gynllunio a'i gyflenwi mewn ffordd i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd gan y practis reolwr a oedd yn gweithio'n agos gyda'r prif ddeintydd ac aelodau eraill y tîm. Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda.**

Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd ac roedd yn gweithio'n agos gyda'r prif ddeintydd ac aelodau eraill o dîm y practis. Fel rhan o'r rôl hon, roedd rheolwr y practis hefyd yn ymgymryd â dyletswyddau'r dderbynfa.

Dywedodd staff wrthym fod cyfarfodydd y practis yn cael eu cynnal bob mis a gwelsom nodiadau cyfarfodydd diweddar i gefnogi hyn. Nododd y staff fod maint bychain y tîm yn golygu eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a bod ystod o bolisiâu a gweithdrefnau clinigol ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel i gleifion. Roedd canllawiau ychwanegol i gefnogi polisiâu a gweithdrefnau'r practis hefyd ar gael.

Roedd y polisiâu a oedd ar waith yn cynnwys y rhai a oedd yn ymwneud â diogelu oedolion a phlant agored i niwed. Roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt timau diogelu lleol. Golygai hyn fod tîm y practis yn gallu chwilio am gyngor allanol mewn perthynas â materion diogelu cleifion a allai godi.

Cafodd nifer o asesiadau risg eu cwblhau mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch yn y gweithle. Cafodd y rhain eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Golygai hyn eu bod wedi rhoi ystyriaeth i broblemau posibl a gweithredu lle bo angen i leihau'r risg o anafiadau i staff a chleifion.

Gwnaeth rheolwr y practis a'r prif ddeintydd gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru â Chyngor Gofal Cymru a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith. Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau deintyddol yn gyfredol ac roeddent wedi'u harddangos mewn man amlwg yn unol â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008 (Cymru).

Gwnaeth rheolwr y practis a'r prif ddeintydd gadarnhau bod staff wedi cael chwistrelliad rhag firws Hepatitis B. Gwnaeth y sampl o gofnodion y staff a welsom gadarnhau hyn.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau ac roedd y cyfathrebu yn eu tîm yn dda. Roedd tystiolaeth o'r hyfforddiant a fynychwyd ar gael yn y sampl o gofnodion y staff. Golygai hyn bod staff yn derbyn

cefnogaeth i fodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus fel bod ganddynt sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

Roedd gan y practis weithdrefn chwythu'r chwiban ysgrifenedig. Gwnaeth staff y bûm yn siarad â nhw gadarnhau y byddent yn hapus i nodi pryderon a oedd yn ymwneud â gwaith yn uniongyrchol â'r prif ddeintydd cyn, ac o bosibl yn lle, nodi eu pryderon yn allanol.

Roedd y practis yn darparu triniaeth breifat a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefn ar waith er mwyn i'r cleifion leisio pryderon (cwynion). Roedd angen cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Daethpwyd â hyn at sylw'r prif ddeintydd a wnaeth gytuno i ddiweddar'u'r wybodaeth hon yn y weithdrefn.

## ***Ansawdd yr Amgylchedd***

**Roedd amgylchedd y practis yn ymddangos ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn darparu ardal gyfforddus i gleifion a oedd yn aros i gael eu gweld gan ddeintydd neu gan hylenydd.**

**Daeth i'r amlwg bod y prif ddeintydd wedi'i ymrwymo i ddatblygu cyfleusterau'r practis. Cafodd rhai ardaloedd eu hadnewyddu a gwelsom eu bod wedi cael eu haddurno a'u dodrefnu i safon uchel.**

Mae 22 Dental yn darparu gwasanaethau mewn adeilad yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd arwyddion clir gan y practis, a oedd yn golygu ei fod yn hawdd dod o hyd iddo o'r stryd fawr. Er nad oedd maes parcio penodol ar gael, roedd yn bosibl parcio mewn meysydd parcio cyhoeddus yng nghanol y dref.

Roedd y practis ar lawr cyntaf yr adeilad ac roedd wedi'i drefnu ar ddau lawr. Roedd grisiau mewnol yn arwain i fyny at y practis. Golygai hyn nad oedd y practis yn hygyrch i bobl â phroblemau symudedd sylweddol na chleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Roedd rheilen ar gael i helpu'r cleifion hynny a oedd yn gallu defnyddio'r grisiau.

Roedd oriau agor y practis wedi'u nodi'n glir ar ddrws mynedfa'r practis. Roedd y rhif mewn argyfwng hefyd wedi'i nodi'n glir. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion sy'n mynychu'r practis yn gallu ffonio am gyngor pan fyddai angen gwasanaethau triniaeth ddeintyddol frys arnynt pan fyddai'r practis ar gau. Dywedwyd wrthym hefyd bod y rhif hwn ar gael ar neges peiriant ateb y practis.

Defnyddiwyd tair meddygfa, roedd dwy ohonynt ar y llawr cyntaf ac un ar yr ail lawr. Roedd y dderbynfa ar y llawr cyntaf ac roedd ardaloedd aros ar y llawr cyntaf ac ar yr ail lawr. Yn ystod taith o amgylch y practis gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus gyda goleuo, gwresogi ac awyru priodol. Roedd yr ystafelloedd aros yn darparu ardaloedd cyfforddus i gleifion aros wrth gael eu gweld gan ddeintydd neu hylenydd.

Roedd gan y practis gyfleusterau tŷ bach i'r staff a'r cleifion eu defnyddio. Roedd ddau gyfleuster yn amlwg yn lân ac yn cynnwys offer golchi dwylo addas i atal croesheintio.

Roedd adeilad y practis yn ymddangos ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol yn fewnol ac yn allanol. Daeth i'r amlwg fod y prif ddeintydd wedi'i ymrwymo i ddatblygu cyfleusterau'r practis gymaint â phosibl. Roedd y manau a oedd wedi cael eu gwella eisoes wedi cael eu haddurno i safon uchel.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau y gallai sgysiau cyfrinachol a galwadau dros y ffôn gael eu cynnal yn breifat. Roedd storfa dan glo hefyd ar gael i sicrhau diogelwch cofnodion papur.

Roedd mesurau diogelwch ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod.

Roedd arwyddion diogelwch perthnasol ar gael i roi gwybod i staff a chleifion am beryglon posibl, megis arwynebedd poeth a nenfwd isel uwchben y grisiau. Roedd allanfeydd tân wedi'u labelu'n glir ac roedd cyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân wedi cael eu harddangos er mwyn i gleifion a staff eu gweld. Roedd labeli cynnal a chadw yn nodi fod diffoddwyr tân wedi cael eu gwirio yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwelsom hefyd gofnodion a oedd yn dangos bod larymau tân yn cael eu profi'n wythnosol a bod profion tân rheolaidd yn cael eu cynnal. Golygai hyn fod y practis yn cymryd camau gweithredu i sicrhau diogelwch cleifion a'r staff pe bai tân.



## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, nid oes angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella.